# Astudiaeth Achos: Grŵp Tirfeddianwyr Gogledd Brycheiniog

## Cyflwyniad

Fel rhan o'r prosiect Cysylltiadau Gwyrdd, fe drefnwyd y swyddfa Brycheiniog o'r YNDGC gyfarfod o dirfeddianwyr i weld os oedd diddordeb mewn creu grŵp tirfeddianwyr. Cafodd y cyfarfod ei ddal ar ffarm 42-erw yn Llysdinam a mynychodd 12 o bobl yn cynrychioli 7 tirfeddianwyr. Fe gafodd y gwahoddedigion teisennau a the yn y berllan a thro o gwmpas y ffarm.

## Y Prosiect

Fe gytunwyd dylai grŵp gael ei ffurfio a wnaeth dau berson gwirfoddoli i weinyddu'r grŵp, un ffermwr ac un ecolegwr. Fe wnaeth y ddau wirfoddolwr yma drefnu'r cyfarfod cyntaf ar fferm yn Llysdinam er mwyn trafod amcanion y grŵp. Hefyd wnaethon nhw greu e-bost cyflwynedig a datganiad GDPR a gafodd ei ddanfon at bob aelod. Pwrpas y grŵp yw cynnig ffordd gymdeithasol ac anffurfiol o rannu syniadau, arbenigedd, a phrofiadau ynglŷn â rheolaeth tir ar gyfer bywyd gwyllt, ar holl raddfeydd gwahanol o gerddi at ffermydd mawr. Pwyslais y grŵp oedd cyfarfodydd wyneb-at-wyneb, yn ymweld â safleoedd ei gilydd unwaith y mis.

Yn y cyfarfod cyntaf ffurfiol cafodd ei gytuno bod aelodau yn mynd i gymryd tro yn lletya cyfarfodydd yn fisol. Cytunodd y gweinyddion i drefnu ymweliadau grŵp at lefydd o ddiddordeb er mwyn creu siawns am hyfforddiant gan yr Ymddiriedolaethau Natur a tharddiadau arall ac i wahodd gwahoddedigion gydag arbenigaeth. Hefyd siaradodd y grŵp am rannu offer, cynnig tir ar gyfer pori, pori anifeiliaid yn cynnwys defaid, gwartheg, a cheffylau, a llefydd ar gyfer tyfu bwyd i aelodau eraill.

Hefyd fe fynychodd gwadd o Gysylltiadau Gwyrdd, a gafodd ei gomisiynu fel hwylusydd i weithio gyda thirfeddianwyr a chontractwyr er mwyn datblygu perthnasau cynaliadwy i greu rheolaeth cynefinoedd gwell.

Mae 20 stad yn rhan o'r grŵp heddiw ac mae diddordeb yn tyfu'n gyson.





Dinodd unflwydd yn tyfu yng nghanol llwybr.

Andrew Shaw o'r Feithrinfa Planhigion Prin Prydeinig yn dangos y grŵp Dinodd Unflwydd, rhywogaeth brin yn Siroedd Frycheiniog a Faesyfed sydd dim ond wedi'i weld yn ddiweddar yng nghwpl o safleoedd. Mae o fewn adfeiliad serth yn genedlaethol.

**Allbynnau'r Prosiect**

Datblygwyd grŵp dirfeddianwyr, ac ymunodd 20 o dirfeddianwyr. Mae bob un yn cynnwys aelodau teuluoedd, partneriaid, rhieni, a phlant sydd hefyd yn groeso yn y grŵp, yn enwedig oherwydd maen nhw'n cynrychioli ceidwadwyr y dyfodol. Mae diweddariadau yn cael ei ddanfon i'r grŵp yn rheolaidd ac mae sawl aelod wedi trefnu i letya'r cyfarfodydd misol.

Fe wnaeth y Grŵp Dirfeddianwyr Gogledd Brycheiniog hefyd siarad yn y Sioe Ffordd Cysylltiadau Gwyrdd ym Meulah, lle wnaethon nhw gyfarfod 2 aelod newydd.



Ceiliog y Gwair wedi'i ddal gan fab un aelod.

**Deilliannau'r Prosiect**

- Un Grŵp Dirfeddianwyr wedi'i ddatblygu.
- 40+ o bobl, yn cynnwys plant, a 20 o stadau wedi ymrwymo i reolaeth tir caredig at natur.
- Perthnasau cynaliadwy rhwng tirfeddianwyr a chontractwyr.
- Mae ffurfio'r grŵp tirfeddianwyr wedi golygu dyweddïad mwy gyda'r Ymddiriedolaeth Natur.
- Yn symud ymlaen mae cymuned sy'n helpu creu, gwella, a rheoli cynefinoedd o ansawdd dda er mwyn cymorth bywyd gwyllt lleol, gyda chymorth gan yr Ymddiriedolaeth Natur leol.



Grŵp y Tirfeddianwyr yn cael tro o gwmpas ffarm 42-erw yn Llysdinam.



Pwll y ffarm, yn goroesi'r sychder.